Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**TEITL: Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Ofalwyr**

**DYDDIAD: 08 Rhagfyr 2008**

**GAN: Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

Rwy'n falch o gyhoeddi y cafodd Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar Ofalwyr ei osod heddiw.

Er gwaethaf y fframwaith presennol o ddeddfwriaeth a chanllawiau, mae ymgynghoriadau â gofalwyr, sefydliadau gofalwyr ac eraill wedi tynnu sylw at fylchau sydd angen eu cau mewn gwasanaethau. Yn benodol, mae angen gwella bywydau gofalwyr yn y meysydd allweddol canlynol:

- dod i wybod pwy sy'n ofalwr,
- asesu anghenion gofalwyr,
- cyflenwi gwasanaethau a chymorth i fynd i'r afael â'r anghenion hynny,
- darparu gwybodaeth berthnasol, ddiweddar a phrydlon sy'n hawdd cael gafael arni,
- sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd ac asiantaethau eraill yn ymgysylltu'n effeithiol â gofalwyr fel partneriaid,
- sicrhau bod asiantaethau statudol yn cydweithredu'n effeithiol.

Felly, roedd dogfen "Cymru'n Un" Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys ymrwymiad i baratoi deddfwriaeth newydd ar ofalwyr er mwyn sicrhau bod ein hamcanion polisi o ran gofalwyr yn cael y flaenoriaeth deilwng, ac yr eir i'r afael yn effeithiol â'r bylchau a'r anghysondebau yn y gwasanaethau iddynt.

Gan hynny, prif ddiben y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn yw caniatáu i'r Cynulliad basio Mesurau'r Cynulliad o dan ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fydd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi gofalwyr a hyrwyddo eu lles.

Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 09 Rhagfyr 2008.